

Cofion

- Mewn tristwch, ond nid heb obaith y cydymdeimlwn heddiw gyda theuluoedd Mrs Dilys Owens (Cefn Meiriadog), Mr Elwyn Roberts (Groes) a Mrs Megan Pritchard (Llanefydd). Boed i chwi, bob un, adnabod cysur yr Arglwydd a'i nerth.
- Mae Mrs Eirian Davies (Cefn Meiriadog) yn Ysbyty Abergele yn dilyn llawdriniaeth; Mr Elfed Davies (Saron), a Mr Thomas Evans (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd; a Mr William Jones (Llanefydd) a Mr Thomas Hughes (Saron) yn parhau'n yr Inffirmari. Daliwn ati i weddio drostyn nhw a'u teuluoedd.
- Bu Mr Glyn Williams (Cefn Meiriadog) yn yr ysbyty hefyd am ychydig ddyddiau, a Mr John Parry (Saron), yntau wedi bod yn Ysbyty Gobowen am driniaeth yn ystod yr wythnos. Dymunwn adferiad buan iddynt hwythau hefyd.

Merched y Fro

Ydych chi wedi sylweddoli fod cyfarfod chwirydd yn cael ei cynnal ar Chwefror 1af yn y Groes? Os ydych yn ferch yn darllen Llais Bro Aled, mae'r cyfarfod hwnnw ar eich cyfer chi – dim ots beth yw eich oed, lliw eich gwallt na maint eich esgidiau! Plis gwnewch ymdrech i ddod i'r cyfarfod am baned, cyfle i gymdeithasu a chyfle i ddarganfod bod y Cyfarfod Chwirydd yn le 'dach chi eisiau bod yno! Bydd sgwrs fer am y gwaith cenhadu sy'n digwydd yn y Fro, am rôl y Tîm Gwasanaethu ac am Apêl Mizoram.

Dosbarth derbyn – diddordeb?

Mae'n fwriad gennym gynnal dosbarth derbyn ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod yn gyflawn aelodau o unrhyw un o gapeli'r Fro. Os ydych yn barod i ymateb, yna cysylltwch hefo Aneurin (07775 701102) neu Mair (870632) cyn diwedd y mis ac fe drefnir yr amser fydd fwyaf cyfleus. Bydd angen mynychu cyfres o ddeg dosbarth.

I ddod

- **Cyfarfod Chwirydd Eglwys Bro Aled** yng Nghapel Groes ar nos Fawrth, Chwefror 1af am 7.30 gyda Sarah Morris yn annerch.
- **Cwrs Plant yng Ngholeg y Bala** o Chwefror 4ydd – 6ed. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sarah (870601) neu Goleg y Bala (01678 520565). Cost £48 (i blant Eglwys Bro Aled - £38).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23^{ain} Ionawr 2011

Mae'r Iesu wedi cario'r dydd
– caiff carcharorion fynd yn
rhydd!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso cynnes i chwi eto i oedfaon y dydd. Mae angen y bwyd yma arnom! Mae hi'n gyfnod caled a da fyddai i ni heddiw ymateb i wahoddiad graslon yr Iesu – "Cymerwch, Bwytwch". Dod at Fara'r Bywyd a chael digon!

Os oedd hi'n wir i ddeud ychydig wythnosau yn ôl, adeg yr eira mawr, cymaint ro'n i wedi dychryn gan gymaint o dywydd ro'n i'n ei wyllo ar y sgrîn fach, rwyf bellach wedi dychryn fy hun hefo cyn lleied o newyddion dwi wedi ei wyllo dros yr wythnos diwetha'! Cael cornel ambell i stori a chynffon un arall. Dim byd o sylwedd - ac mae Paxman wedi mynd yn ddieithr iawn! Ond dyna fel mae hi weithiau – gadael i'r byd fynd rhagddo ac mae'n debyg yr aiff ymlaen yn berffaith iawn heb fy ymyrraeth i, na'm gwybodaeth i o'i hynt a'i helynt.

Sut oedd pobl ers talwm yn byw meddech chi heb y wal dragwyddol yma o newyddion. 24/7 – mae hwn yn ymadrodd newydd sy'n cyfleu pob awr o bob dydd o bob wythnos, a does dim modd bellach osgoi yn llwyr y wal newyddion 24/7 – ddim hyd yn oed i ostrich fel fi!

Sut y byddwn ni yn cymryd at y gwaith o dderbyn y newyddion pwysicaf erioed? Tybed ydi fy mhrofiad i o wrando ar y news yr wythnos yma yn debyg i'n profiad ni hefo'r neges am fywyd Iesu? Byw ar dderbyn rhyw gornel fach o'r newyddion pwysicaf erioed a gadael i Dduw a'i bethau fynd ymlaen heb i ni wneud fawr o sylw ohonynt? Gobeithio'r gorau yn y pen draw.

Efengyl i'w mwynhau sydd gennym ac y mae Duw yn agor trysorau i ni yn ei Air ac yn y gymdeithas sydd rhwng ei bobl yn ei Eglwys. Mae'n awyddus i ni gael gwybod am y newyddion yn llawn – dim scraps o newyddion a hanner stori. Ac mae hi'n stori ryfeddol! Stori – newyddion da yn hytrach - am gariad Duw at ei Fab ac yn y Mab hwnnw, Duw yn ei caru ni gymaint nes ei fod yn fodlon marw trosom. 'Dyma gariad nad a'n angof tra bo nefoedd wen yn bod' yn ôl Gwilym Hiraethog.

Beth am fanteisio heddiw ar y cyfle i ddod i wrando'r stori – clywed y news – gweld Duw ar waith yn rhannu ei fendithion ymhlith ei bobl. A beth am ddod â'ch stori chi ato fo mewn gweddi?

'Newyddion da a ddaeth i'n bro – hwy haeddant gael eu dwyn ar go'!

Helpiwch fi i beidio â bod yn ostrich hefo newyddion da Duw ac fe dria innau 'ngorau i wneud yr un peth i chi!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun **Grŵp genod blynyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30. Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00
- Iau **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener - **Penwythnos Ieuenctid Bl.7-10** yng Ngholeg y Bala - cyfle i weld hen ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd, i ymlacio, chwarae pŵl, wii, pêl-droed, sinema a gweithgareddau eraill, yn ogystal â chyfle i ddysgu mwy am Iesu. Cost £48 (i ieuenctid Bro Aled - £38). I gofrestru a sicrhau'r gostyngiad, ffoniwch Sarah (870601).
- Sadwrn **Noson o Fowlio Deg** yn Llandudno ar ôl pizza yng nghartref Elen Elias, 88 Llanrhos Road, Bae Penrhyn LL30 3HY (am 7.00). Enwau i Elen (01492 543320) erbyn dydd Iau, Ionawr 27ain, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Cynhelir **Gwasanaeth Arbennig** yn Llansannan am 6.00 i arwyddo diwedd tymor Meirion yma fel gweinidog. Mi fydd Aneurin yn dweud gair ar ran yr Eglwysi, a byddwn yn croesawu y Parch Hywel Meredydd yma i bregethu. **Bydd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi i bawb yn dilyn yr oedfa.**

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00, a'r un modd yng Nghefn Berain - Ysgol Sul am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau